## Cynigion a Gwelliannau i’w trafod yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 2 Mai 2006

**NNDM3008 Mike German (Dwyrain De Cymru); Peter Black (Dwyrain De Cymru); Eleanor Burnham (Gogledd Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

(a) Adroddiad Estyn ar y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth a gasglodd fod y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth wedi llwyddo i gynorthwyo 30,000 o bobl ifanc i fanteisio ar wasanaethau cerdd ac ers i'r gronfa ddod i ben fod gwasanaethau cerdd yn wynebu dyfodol ansicr;

(b) y llythyr a anfonwyd at y Prif Weinidog ar 10fed Mawrth 2006 gan ddeuddeg ar hugain o gerddorion gorau Cymru’n galw am Faniffesto Cerdd Cenedlaethol ac adfer y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth.

(c) Bod Lloegr a’r Alban yn cynyddu eu nawdd i gerddoriaeth i’r ifanc yn ddramatig.

2. Yn credu:

(a) Bod gan Gymru dreftadaeth gerddorol sy'n destun balchder;

(b) Y dylai pobl ifanc allu cael gafael ar addysg gerddorol ni waeth beth y bo’u cefndir cymdeithasol ac ni waeth ymhle y bônt yn byw;

(c) Y dylai cerddoriaeth i’r ifanc gael ei hariannu'n ddigonol.

3. Yn penderfynu:

(a) Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau addysg lleol i sicrhau darpariaeth ac arian digonol ar gyfer addysg gerdd o fewn y cwricwlwm a’r tu allan iddo.

(b) Bod angen Maniffesto Cerdd ar Gymru, er mwyn rhoi cyfeiriad cenedlaethol i’n huchelgais cerddorol.

*E-bostiwyd copïau o Adroddiad Estyn a'r llythyr a anfonwyd at y Prif Weinidog at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mai 2006.*

**NNDM3006 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad a gynhwysir dan Adrannau 19 i 21 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

Gellir canfod copi o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 *ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen isod:* *http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2003/20030038.htm*

**NNDM3007 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a e-bostiwyd at Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mai; a

2. Yn cymeradwyo'r gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog a geir yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes.